**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
**Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP**

**Friends of National Museum Wales**
**Cathays Park, Cardiff CF10 3NP**

friends national museum wales cyfeillion amgueddfa cymru

**Sadwrn 23 Ionawr 2016**
**am 10.30 yb yn Narlithfa Reardon Smith, Amgueddfa Cymru, Parc Cathays**

# 'Augustus and Gwen John, United and Divided by their Art'

### Sgwrs gan Dr Beth McIntyre

Roedd yr arlunwyr Cymreig enwog Gwen ac Augustus John yn chwaer a brawd, ond dilyn llwybrau tra gwahanol i'w gilydd a wnaeth eu llwybrau artistig. Bydd Dr McIntyre, sy'n Guradur hŷn ar Brintiau a Lluniadau yn Amgueddfa Cymru Caerdydd yn trafod y cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau mewn sgwrs a fydd yn priodi â'r arddangosfa yn Oriel 13 'Ffocysu ar Augustus John'. Bydd yr arddangosfa yn cynnwys lluniadau ac ysgarthiadau o gasgliadau presennol yr Amgueddfa o waith yr arlunydd, yn ogystal â benthygiadau o gasgliad preifat pwysig.

A hwythau wedi eu magu yn Ninbych-y-pysgod, aeth y ddau, Gwen (i876-1939) ac Augustus (1878-1961) yn fyfyrwyr i'r Ysgol Slade, Llundain, yn y 1890au. Erbyn iddo gyrraedd 25 oed Augustus oedd arlunydd cyfoes amlycaf Ewrop yn ei ddydd. Câi ei ddawn ei gymharu ag eiddo Michelangelo, Gauguin a Matisse. Enillodd hefyd statws chwedlonol am ei fuchedd fohemaidd a'i gylch ffrindiau enwog. Yn gyferbyniol, dim ond yn gymharol ddiweddar y cafodd dalentau Gwen eu cydnabod. Mae ei thechneg ofalus ynghyd â'i phalet gynnil o borffor golau a llwydlas yn gwbl wahanol i'r brafwra llachar sy'n nodweddu lliwiau Augustus. Nodir hefyd ei pherthynas angerddol â Rodin ym Mharis.

Y tâl mynediad, i gynnwys coffi a bisgedi yn Ystafelloedd Oriel ar ôl y sgwrs, yw £8 i'r Cyfeillion sydd yn archebu ymlaen llaw, neu £10 wrth y drws. Er mwyn manteisio ar y gostyngiad tâl, llenwch y daflen isod, os gwelwch yn dda, a'i hanfon gyda'ch siec erbyn dydd Mercher 20 Ionawr at:
**Gwen Williams, 57 Beulah Road, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6LU**
(ffôn: **029 2062 0094 / 07802 437316**; e-bost: **gwen.williams@friendsmuseumwales.org.uk**).
**Noder: os byddwch yn anfon cais am fwy nag un digwyddiad, anfonwch siec ar wahân am bob un, os gwelwch yn dda.** I arbed costau postio, ni fydd cydnabod. Gwnewch ymdrech i ddod – a dewch â'ch ffrindiau hefyd, gan fod y digwyddiad yn agored i'r cyhoedd am dâl o £10 (ymlaen llaw neu wrth y drws). Bydd croeso cynnes iddynt.

…………………………………………………………………………………………………

**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
**Sgwrs gan Dr Beth McIntyre: 'Augustus and Gwen John, United and Divided by their Art'**
**Dydd Sadwrn Ionawr 23 2016 am 10.30yb**
**yn Narlithfa Reardon Smith, Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd**

Carwn archebu ..……… (l)le ar gyfer y digwyddiad uchod. Amgaeaf siec am £ ………. (yn daladwy i Cyfeillion Amgueddfa Cymru)

Enw, cyfeiriad a chod post...........................................................................................................

.......................................................................................................................................................

ebost …………………………………………………………ffôn…………………………………….